Y Gwir Anrhydeddus Steve Barclay AS,
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys
Drwy e-bost

Senedd yr Alban,
Caeredin
EH99 1SP

Ffôn: (0131) 348 5451
finance.constitution@parliament.scot

29 Mehefin 2020

Annwyl Mr Barclay,

Rydym yn ysgrifennu ar ran Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban, Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon ynghylch pwysigrwydd amseriad cyllideb y DU.

Fel y gwyddoch, mae gwaith craffu seneddol i lefel briodol ar gyllidebau llywodraethau datganoledig yn dibynnu ar amseriad Cyllideb y DU - o ystyried y cydgysylltiad rhyngddi â'r grant bloc, gan gynnwys yr addasiadau a'r cysoniadau, a gweithrediad y Fframwaith Cyllidol yn ehangach. Ar yr un pryd, mae'r ansicrwydd parhaus sy'n deillio o effaith pandemig COVID-19 a diwedd y cyfnod pontio yn dilyn Brexit yn anochel yn golygu y bydd proses gyllidebol eleni yn fwy heriol i'r llywodraethau ym mhedair gwlad y DU. Gan hynny, byddwch yn deall bod pob un o'n Pwyllgorau o'r farn bod y cyfle i gynnal gwaith craffu seneddol cadarn yn fwy hanfodol fyth.

O ganlyniad, byddem yn croesawu cael arwydd mor gynnar â phosibl ynglŷn ag amseriad Cyllideb y DU a sicrwydd y byddwch yn ystyried effaith yr amseriad hwnnw ar wahanol brosesau cyllideb y gwledydd datganoledig.

Yn gywir,

**Bruce Crawford ASA**
**Cynullydd Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban**
**Dr Steve Aiken**
**Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon**
**Llyr Gruffydd AS**
**Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru**